# Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21

## Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3172A2022

Mae'r memorandwm hwn ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru wedi'i baratoi ymhellach i archwiliad Archwilydd Cyffredinol Cymru o gyfrifon Gweinidogion Cymru o dan adran 131(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Ynglŷn â'r memorandwm hwn 5

Pam roddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19? 6

Faint o gymorth ariannol roddodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 ac at ba ddibenion? 7

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith dilynol ar risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a gwall? 10

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwerthuso effaith ei chymorth ariannol? 18

Atodiad 1 – Dadansoddiad o gymorth grantiau a rhyddhad ardrethi 19

# Cyflwyniad

1 Yn ei adroddiad fel rhan o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at effeithiau amodi ei farn yn y flwyddyn flaenorol am ddatganiadau ariannol 2019-20 mewn perthynas â grantiau busnes a ddarparwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fe amododd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn am wirionedd a thegwch datganiadau ariannol 2020-21 am eu bod yn cynnwys £0.7 biliwn o wariant a ddylai fod wedi cael ei gynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r safbwynt yma ac mae wedi cynnwys y gwariant hwn yn natganiadau ariannol 2020-21[1].

2 Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw hefyd at ddatgeliadau yn Natganiad Llywodraethu Llywodraeth Cymru ynghylch lefel amcangyfrifedig twyll a gwall ar gyfer grantiau COVID-19 i fusnesau. Mae'r Datganiad Llywodraethu'n nodi, o'r achosion o dwyll yr hysbyswyd yn eu cylch a'r gwaith 'Monitro Ar Ôl Cwblhau' a gwblhawyd hyd yma:

- bod Llywodraeth Cymru wedi asesu ystod o dwyll a gwall rhwng 0.08% a 4.17%;
- ei bod wedi cymhwyso'r ystod ganrannol hon i wariant o £893 miliwn yn 2020-21 ar y cynlluniau hynny â gofynion cymhwystra manylach y tu hwnt i gynlluniau cymorth cyfradd safonol cychwynnol; a hefyd
- ei bod, ar y sail honno, wedi amcangyfrif mai rhwng £0.7 miliwn a £37.2 miliwn yw'r risg bosibl o dwyll a gwall ar gyfer yr £893 miliwn hwnnw o wariant.

3 Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod 'ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn o ganlyniad i gyfyngiadau data'. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn, 'Rwyf wedi fy argyhoeddi bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad yw hyn yn wariant perthnasol yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru'. Ar gyfer Cyfrifon Cyfunol 2020-21, pennwyd lefel perthnasedd o £175 miliwn[2].

[1] Roedd ein Sylwebaeth ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 ym mis Tachwedd 2020 yn darparu esboniad pellach ar yr amodiad. Fe wnaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ystyried y mater hwn fel rhan o'i waith craffu ac yn ei adroddiad ei hun Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021.

[2] Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu wall. Caiff camddatganiadau eu hystyried yn berthnasol os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

## Ynglŷn â'r memorandwm hwn

4 Rydym wedi paratoi'r memorandwm hwn ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PCCaGG) i nodi peth gwybodaeth ychwanegol a chefnogi'r broses o graffu ar Gyfrifon Cyfunol 2020-21. Nid yw'r memorandwm yn gynhwysfawr ac mae'n canolbwyntio ar y prif ymyriadau o ran cymorth ariannol i fusnesau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21 a fu'n ffocws ar gyfer ein gwaith profi samplau fel rhan o'r archwiliad[3]. Rydym yn nodi:

- pam y rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19;
- faint o gymorth ariannol a roddodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 ac at ba ddibenion;
- sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith dilynol ar risgiau mewn perthynas â thwyll a gwall; a
- sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwerthuso effaith ei chymorth ariannol.

5 Wrth baratoi'r memorandwm hwn, rydym wedi tynnu ar y canlynol:

- gwybodaeth o system cyfriflyfr ariannol Llywodraeth Cymru, System Cyfrifon Busnes – Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (BAS), canllawiau'r cynllun cymorth COVID-19 i fusnesau a phapurau eraill a ddarparwyd ar ein cyfer fel rhan o'n harchwiliad o gyfrifon Llywodraeth Cymru yn 2020-21;
- gwybodaeth reoli arall gan Lywodraeth Cymru am nifer y busnesau a gafodd fudd o gymorth, nad ydym ni wedi ei harchwilio ein hunain; a
- gwybodaeth gyhoeddus arall, gan gynnwys adroddiadau gwerthuso gan Ddeallusrwydd Economaidd Cymru (gweler **paragraffau 42 i 43**).

6 Nid ydym wedi ceisio ffurfio ein barn ni ein hunain ynglŷn â darbodaeth, effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd (gwerth am arian) o ran y modd y gweinyddwyd y cymorth ariannol, gan gynnwys yr effaith ehangach ar fusnesau Cymru. Nid ydym ychwaith wedi gwneud unrhyw waith pellach i brofi'r trefniadau rheolaeth y tu hwnt i'r gwaith lefel uchel a oedd yn angenrheidiol i ategu barn yr Archwilydd Cyffredinol am Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn 2019-20 a 2020-21. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gwneud gwaith pellach ar y testun hwn gan ystyried y cymorth ychwanegol a roddwyd trwy 2021-22 a thystiolaeth bellach a allai ddod i'r amlwg am werth am arian, gan gynnwys o waith Monitro Ar Ôl Cwblhau parhaus Llywodraeth Cymru.

[3] Fe wnaeth ymrwymiadau cyllido eraill roi cymorth ychwanegol neu wedi'i ailbwrpasu i sectorau penodol neu dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, cymorth a roddwyd i'r sector diwylliannol a chreadigol.

## Pam roddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19?

7 Ledled y DU, fe arweiniodd effeithiau pandemig COVID-19 at fesurau digynsail i ddiogelu pobl a'r economi. Fe wnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU, roi cyfyngiadau symud cenedlaethol ar waith ar 23 Mawrth 2020. Fe gaeodd yr holl fusnesau manwerthu dianghenraid, busnesau lletygarwch, hamdden ac ystod o fusnesau eraill. Effeithiwyd yn fawr ar sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, nwyddau traul, a busnesau sy'n eu cyflenwi. Roedd angen i fusnesau a arhosodd ar agor addasu ffyrdd o weithio i sicrhau y gallent weithredu'n gyfreithlon ac yn ddiogel, yn unol â chanllawiau COVID-19.

8 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu cyllid yn uniongyrchol i fusnesau i dalu cyfran o gyflogau staff, trwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (y 'cynllun ffyrlo'), a lansiwyd ym mis Mawrth 2020, a fu'n rhedeg tan fis Medi 2021 ac a oedd ar gael i fusnesau cymwys, gan gynnwys yng Nghymru. Fe wnaeth Llywodraeth y DU hefyd ddarparu'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig; Cynllun y Benthyciad Tarfu ar Fusnes; a'r Cynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol, ymhlith cynlluniau eraill, y gallai busnesau cymwys yng Nghymru gael mynediad atynt. Nododd Llywodraeth Cymru fanylion y cymorth cynnar gan Lywodraeth y DU mewn papur tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ym mis Mehefin 2020.

9 Yn ychwanegol at gymorth ar lefel y DU gyfan, fe gydnabu Llywodraeth Cymru anghenion penodol economi Cymru ac fe gyflwynodd ei phecynnau ategol ei hun o gymorth ariannol i fusnesau Cymru. Yn ei phapur tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin 2020, fe bwysleisiodd Llywodraeth Cymru bod ei hymyriadau economaidd hi ei hun wedi'u bwriadu i:

- helpu busnesau i oroesi'r sioc a achoswyd gan ostyngiadau sydyn a sylweddol mewn refeniwiau, a ddeilliodd o bandemig y coronafeirws ac o'r cyfyngiadau symud gorfodol a oedd yn angenrheidiol i reoli ymlediad y feirws; a
- chynyddu'r siawns y byddai busnesau'n goroesi ac o ddiogelu swyddi cyflogeion.

10 Er mwyn galluogi ymateb cyflym, gweinyddodd Llywodraeth Cymru grantiau dewisol a grantiau wedi'u targedu ei hun gan ddefnyddio'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru fel ei hasiantau i weinyddu rhai grantiau, grantiau yn bennaf yn seiliedig ar ardrethi annomestig sy'n gysylltiedig ag eiddo, ochr yn ochr â rhyddhad ardrethi. Darparodd Banc Datblygu Cymru gymorth benthyciadau busnes hefyd cyn i Lywodraeth y DU lansio ei wasanaethau Bounce Back a gwasanaethau benthyciadau ehangach. Gan bod rhaid rhoi cymorth yn gyflym, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n glir ei bod yn cynyddu ei pharodrwydd i dderbyn risg. Derbyniodd efallai na fyddai camau gwirio y byddai'n disgwyl eu cyflawni dan

amodau gweithredu arferol yn bosibl ac y gallai hyn gynyddu'r risg gynhenid o dwyll a gwall.

11 Fel a nodwyd yn ei Datganiad Llywodraethu 2020-21, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y rheolaethau a roddodd ar waith mewn perthynas ag ymgeisio a dyfarnu'n gymesur, yn effeithiol, a'u bod wedi darparu mesurau diogelu digonol ar gyfer arian cyhoeddus. Fodd bynnag, canfuom trwy'r gwaith profi a wnaed ar gyfer ein harchwiliad o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, er bod rhai gwiriadau ar rai o'r meini prawf cymhwysedd cyn talu grantiaunad, nid oedd y camau gwirio hyn yn systematig nac yn cael eu dogfennu bob amser.

## Faint o gymorth ariannol roddodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 ac at ba ddibenion?

12 Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r prif elfennau o'r cymorth ariannol i fusnesau a gynhwyswyd yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru 2020-21 ond, fel a nodwyd ym **mharagraff 4**, nid yw'n gynhwysfawr. Mae'r swm o £2.1 biliwn a ddangosir yn cynnwys £92 miliwn o gymorth ar ffurf benthyciadau a roddwyd trwy Fanc Datblygu Cymru[4]. Fodd bynnag, mae ffocws gweddill y memorandwm hwn ar y cymorth a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae **Atodiad 1** yn darparu dadansoddiad manylach o'r cymorth hwnnw ar ffurf grantiau a rhyddhad ardrethi a manylion nifer y dyfarniadau grant.

[4] Nid yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol BDC. Fodd bynnag, mae BDC yn un o'r endidau sy'n rhan o strwythur 'grŵp' Llywodraeth Cymru ac y mae ei ganlyniadau'n cael eu cyfuno â datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 1: prif elfennau'r cymorth ariannol i fusnesau a gynhwyswyd yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru 2020-21**

| Cymorth ariannol | Manylion |
|---|---|
| **Cynllun Grantiau Ardrethi Annomestig COVID-19**<br><br>£730 miliwn[1] | Trefnodd y cynllun hwn fod grant o £25,000 ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch a oedd yn meddiannu unedau eiddo â gwerth ardrethadwy a oedd rhwng £12,001 a £51,000, a grant o £10,000 i fusnesau a oedd yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach (SBRR) yng Nghymru â gwerth ardrethadwy o £12,000 neu lai.<br>Fe wnaeth awdurdodau lleol weinyddu'r cynllun hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd yn gymwys i unedau eiddo a oedd ar y rhestr ardrethi annomestig cenedlaethol ar 20 Mawrth 2020. Ond gydag awdurdodau lleol yn gallu cymhwyso disgresiwn ynghylch cymhwysedd os nad oedd y trethdalwr ar y rhestr ar y dyddiad hwnnw. Mae **paragraffau 28 a 29** yn ystyried newidiadau i'r canllawiau cymhwysedd ar gyfer llety hunan-ddarpar yn Ebrill 2020. |
| **Rhyddhad Ardrethi Busnes**<br><br>£356 miliwn | Darparodd y cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Busnesa Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer eiddo mawr, a weinyddwyd gan awdurdodau lleol ryddhad ardrethi i drethdalwyr cymwys ar gyfer 2020-21 (ar wahân i drefniadau Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n bodoli eisoes). Nod y cynllun oedd rhoi cymorth ar gyfer safleoedd cymwys wedi'u meddiannu â gwerth ardrethadwy o £500,000 neu lai, trwy gynnig disgownt o 100% ar yr ardrethi annomestig. |

| Cymorth ariannol | Manylion |
| --- | --- |
| **Y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF)**<br><br>Gweinyddwyd Camau 1-4 gan Lywodraeth Cymru:<br><br>£318 miliwn | Menter gan Lywodraeth Cymru oedd y Gronfa Cadernid Economaidd a oedd wedi'i bwriadu i gefnogi llif arian busnesau â chyllid ar gyfer gwariant costau gweithredu byrdymor i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y pandemig.<br>Roedd y Gronfa Cadernid Economaidd yn ceisio ategu ac nid dyblygu mesurau eraill i ymateb i COVID-19. Gan weithio ochr yn ochr â phrosiect Cynllun Grantiau Ardrethi Annomestig, ar gael i'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer cynlluniau eraill neu'r rhai a oedd yn dal i wynebu anhawster a hwythau wedi cael uchafswm y cyllid a oedd ar gael. Roedd wedi'i bwriadu i lenwi bylchau a oedd yn weddill ac yn dod i'r amlwg, i gynorthwyo mentrau cymwys gyda chostau sefydlog parhau i fod yn weithredol, tra'r oeddent yn dioddef gostyngiad sylweddol mewn trosiant o ganlyniad i bandemig.<br>Roedd y cynllun yn cynnig cymorth i fusnesau a gaewyd gan gyfyngiadau symud yn ogystal â rhoi peth cymorth sector-benodol. |
| **Cymorth arall a weinyddwyd gan awdurdodau lleol**<br><br>£575 miliwn | Yn dilyn y grantiau ardrethi annomestig a rhyddhad ardrethi cychwynnol, bu awdurdodau lleol yn gweinyddu elfennau eraill o gymorth ar gyfer busnesau yn ddiweddarach yn 2020-21 pan osodwyd cyfyngiadau pellach. Roedd y rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon yn gysylltiedig â chymhwyster grantiau ardrethi annomestig, ynghyd â rhai cronfeydd dewisol llai<br>Roedd y cymorth hwn wedi'i fwriadu i ategu'r pecyn ar y cyfan o gymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru trwy ei hamryw gamau ac roedd yn cynnwys grantiau i fusnesau newydd, cronfa'r cyfyngiadau symud yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig a'r gronfa i fusnesau dan gyfyngiadau. |

| Cymorth ariannol | Manylion |
|---|---|
| **Cynllun Benthyciadau COVID-19 i Fusnesau yng Nghymru**<br><br>£92 miliwn | A hwythau ar gael i gwmnïau a oedd yn profi problemau llif arian oherwydd y pandemig, darparodd Banc Datblygu Cymru (BDC) fenthyciadau a oedd rhwng £5,000 a £250,000 â chyfradd llog sefydlog o 2%, gyda gwyliau ad-dalu llog a chyfalaf am y 12 mis cyntaf.<br>Fe wnaeth BDC sylwadau ar y cymorth a roddwyd yn ei Adroddiad Blynyddol 2020-21. |

Nodyn:

[1] Fel a nodwyd ym **mharagraff 1** o'r memorandwm hwn, dylid bod wedi rhoi cyfrif am y swm yma o £730 miliwn yn 2019-20. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno ac fe gynhwysodd y gwariant yma yn ei datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfrif am £42 miliwn o gymorth grant yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig yn 2019-20 hefyd nad yw yn y £730 miliwn.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru gan dynnu'n rhannol ar ddata o gyfriflyfr ariannol Llywodraeth Cymru a'n hadolygiad ni o wybodaeth gyd-destunol arall.

13 Fe wnaeth y cymorth a roddwyd esblygu dros amser, gan adlewyrchu datblygiadau wrth i gyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ddod ar gael i Lywodraeth Cymru a'r modd y cafodd cymorth ei dargedu at sectorau penodol yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan gyfyngiadau parhaus. O fewn pedwar cam y cymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21, roedd y mesurau cymorth yn cynnwys pecynnau ar gyfer busnesau o wahanol feintiau a hynny'n cwmpasu:

- micro-fusnesau sy'n cyflogi rhwng 1 a 9 o bobl;
- busnesau bach a chanolig sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl; a
- busnesau mawr sy'n cyflogi 250 o bobl neu fwy.

# Sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith dilynol ar risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a gwall?

## Cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru

14 14 Ar ddechrau'r pandemig, nid oedd yn glir i Lywodraeth Cymru pa mor hir y gallai fod angen i drefniadau hir ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau bara neu sut y gallai fod angen i'r trefniadau hyn esblygu i ymateb i amgylchiadau newidiol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru osod meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau a

weinyddir ganddo fel rhan o'i nodiadau cyfarwyddyd. Wrth i'r sefyllfa esblygu a newidiodd rheoliadau'r meini prawf hyn a ddatblygwyd ar draws y gwahanol gynlluniau a'r cyfnodau, gyda mwy o ddigideiddio'r broses ymgeisio yn cael ei chefnogi gan offer ar-lein i fusnesau allu gwirio cymhwysedd cyn i ffenestri ymgeisio agor. Datblygodd rheolaethau cyn talu Llywodraeth Cymru dros amser hefyd wrth i wersi gael eu dysgu.

15 Gallai rhai o’r meini prawf cymhwystra ar gyfer cynlluniau gael eu gwirio ac roeddent yn cael eu gwirio ar adeg y cais, er enghraifft camau gwirio creditsafe (gwirio gwefan i gadarnhau bod y busnes yn bodoli), a gwirio cyfrifon banc. Er mwyn galluogi prosesu taliadau yn gynt, busnes fel arfer, gwbl gynhwysfawr, nid oedd gwerthuso yn erbyn rhai agweddau o'r meini prawf yn ymarferol ac roedd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar hunan-ddatganiadau ar gyfer rhai agweddau ar y meini prawf cymhwysedd, megis trosiant. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud gwiriadau ychwanegol ar ôl talu ar y cynlluniau a weinyddwyd ganddo'n uniongyrchol, gydag ymgeiswyr a'r gwobrau a ganiatawyd yn cael gwybod am y posibilrwydd o'r gwiriadau hyn.

16 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod y gyfradd gwrthod ceisiadau’n 25% ar draws y cynlluniau y gwnaeth eu gweinyddu yn 2020-21, sy’n dangos effeithiolrwydd y rheolaethau ar adeg cyflwyno ceisiadau yn ei thyb hi[5]. Mae rhesymau a grybwyllwyd gan Lywodraeth Cymru dros wrthod ceisiadau’n cynnwys peidio â bodloni’r meini prawf, ceisiadau tybiannol, gwall/camgymeriad, neu’r rhai a ysgogodd amheuaeth o dwyll neu gamwedd.

17 Mae’r gwaith ‘Monitro Ar Ôl Cwblhau’ gan Lywodraeth Cymru wedi’i fwriadu i sicrhau yr ymlynwyd wrth delerau ac amodau grantiau ac ymdrin ag achosion o ddyfarniadau anghywir. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i ystyried perfformiad y busnes o ran eu hymrwymiadau megis swyddi a ddiogelwyd, gyda golwg ar gymryd camau i adennill arian lle y bo’n berthnasol. Yr amseriad a bennwyd yn wreiddiol ar gyfer Monitro Ar Ôl Cwblhau oedd 12 mis ar ôl talu.

18 Drwy weithio ochr yn ochr â'i dîm Monitro a Diwydrwydd Dyladwy presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm newydd o ddeg aelod o staff i weithio ar Fonitro Ar Ôl Cwblhau, gan ganolbwyntio ar grantiau i ficrofusnesau a BBChau. Bydd monitro ar gyfer busnesau mwy’n cael ei wneud fel rhan o drefniadau monitro busnes fel arfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau.

19 Nid yw’n glir union faint o amser y bydd yn ei gymryd i orffen y gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau, ac mae blaenoriaethu adnoddau i gefnogi'r ymateb COVID parhaus wedi cael rhywfaint o effaith ar gynnydd. Fe grëwyd y tîm newydd am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, gydag wyth aelod newydd o staff wedi’u recriwtio o’r tu allan i Lywodraeth Cymru ac ar gontractau am gyfnod penodol sy’n dod i ben yn haf 2023. Gweision sifil yn Llywodraeth Cymru â phrofiad perthnasol yw’r ddau aelod

[5] Yn achos y cymorth a oedd ar gael i ficrofusnesau yn ystod camau 1 a 2 y Gronfa Cadernid Economaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym hefyd na wnaeth 40% o’r rhai a gyrchodd y broses frysbennu ar-lein cyn ymgeisio fynd ymlaen i wneud cais.

arall o’r tîm. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd llawer o’r busnesau a gefnogwyd yn ystod y pandemig wedi arfer ag ymdrin â threfniadau cyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi gwneud peth o’r ymgysylltu â busnesau ynghylch Monitro Ar Ôl Cwblhau’n anos ac yn fwy llafurus nag y gellid ei ddisgwyl fel arfer o bosibl.

20 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu ‘grŵp goruchwylio’ i gynghori ar y rhaglen o Fonitro Ar Ôl Cwblhau, monitro cynnydd a darparu sicrwydd ansawdd. Mae aelodaeth y grŵp, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys uwch swyddogion oddi mewn i Grŵp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad yn Llywodraeth Cymru yn ogystal ag o swyddogaethau canolog gan gynnwys cyllid, y ganolfan ragoriaeth grantiau ac archwilio mewnol/atal twyll.

21 Er bod y cynlluniau ar gyfer Monitro Ar Ôl Cwblhau’n cwmpasu’r holl ddyfarniadau grant a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae wedi penderfynu mabwysiadu dull haenog sy’n adlewyrchu niferoedd y busnesau o wahanol feintiau a gefnogwyd, y cyfyngiadau o ran adnoddau ac amser ac ystyriaeth i gostau o’i gymharu â manteision. I grynhoi, y dull a fabwysiadwyd hyd yma ar gyfer camau 1 a 2 y Gronfa Cadernid Economaidd fu:

- microfusnesau: mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull seiliedig-ar-arolwg, gan ofyn cwestiynau syml i ganfod a yw’r busnes yn dal yn weithredol a faint o bobl sy’n cael eu cyflogi.
- busnesau bach a chanolig: mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai’r BBChau hynny â dyfarniadau gwerth uwch, sef mwy na £30,000 – sy’n rhoi cyfrif am oddeutu hanner cyfanswm gwerth y cymorth i BBChau – yn destun ymarfer Monitro Ar Ôl Cwblhau mwy llawn trwy gyfrwng adroddiad a thystiolaeth ariannol ategol. Ar gyfer y busnesau eraill, dewisodd Llywodraeth Cymru eto ddefnyddio dull seiliedig-ar-arolwg yn y lle cyntaf ond gan ddynodi wrth fusnesau ei bod yn cadw’r hawl i gysylltu â hwy eto os cânt eu dewis fel rhan o samplu ar hap ar gyfer gwaith dilynol pellach. Y dybiaeth fu y byddai oddeutu 20% o’r busnesau a arolygwyd yn cael eu samplu ar gyfer gwaith dilynol, ond gyda hyn yn cael ei adolygu’n gyson wrth i’r broses symud yn ei blaen ar draws y camau gwahanol o gymorth.
- busnesau mawr, nad ydynt yn BBChau: mae Llywodraeth Cymru’n gwneud gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau mwy llawn yn unol â’i dull monitro busnes-fel-arfer ar gyfer cymorth i fusnesau, eto gan ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth berthnasol gan gynnwys mewn perthynas â gostyngiadau mewn trosiant (a oedd yn un o’r meini prawf cymhwystra allweddol).

22 Ar yr adeg y cwblhawyd ein harchwiliad o Gyfrifon Cyfunol 2020-21, ym mis Gorffennaf 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i ni, ar gyfer camau 1 a 2 o’r Gronfa Cadernid Economaidd, ei bod:

- wedi anfon 9094 o arolygon at ficrofusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, gan gael ffurflenni yn ôl oddi wrth 3029 (33%).

- wedi anfon 2527 o arolygon at BBChau, gan gael ffurflenni yn ôl oddi wrth 1370 (54%) – nid oedd y gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau mwy llawn ar gyfer y camau hyn wedi cael ei gwblhau.
- wedi anfon ceisiadau am wybodaeth at 52 o fusnesau mawr, gan gael ffurflenni yn ôl oddi wrth 41 (79%).

23 Ar ôl bod trwy gynllun peilot pellach, roedd gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau ar gyfer cam 3 yn mynd rhagddo gyda chynlluniau i fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer camau diweddarach o gymorth dros yr haf.

24 Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ei rheolaethau wedi bod yn dda, barn sydd hefyd wedi cael ei hadlewyrchu gan ei Phennaeth Gwrth-dwyll, mae wedi nodi rhai meysydd a allai, gyda synnwyr trannoeth ac o safbwynt atal twyll, fod wedi cael eu hystyried ar gyfer eu rhesymoldeb a'u cymesuredd. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud defnydd mwy helaeth o Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol CIFAS ar adeg ymgeisio. Mae'r gronfa ddata'n darparu offeryn atal twyll mewn amser real a allai fod wedi cael ei ddefnyddio cyn dyfarnu i ganfod twyll neu ganfod pwy oedd y bobl/sefydliadau a oedd yn ymgeisio am gymorth. Rydym yn deall bod y gronfa ddata wedi cael ei defnyddio mewn oddeutu 10% o achosion (y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ein bod wedi eu hadnabod fel risg uwch), ond bod lanlwytho fesul llwyth yn bosibl ac y gallai fod wedi darparu canlyniadau ar gyfer 100% o fewn 24 awr.

25 Gall casglu data personol ychwanegol ar ffurflenni cais hefyd fod wedi cynorthwyo gyda'r gwiriadau hyn a dilyniant i ryw raddau, er gydag ystyriaethau trin data. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'r mesurau lliniaru risg mwyaf wedi bod pe bai wedi gallu cysylltu â data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer dilysu, ond nad oedd hynny'n bosib o dan ddeddfwriaeth.

26 Ar gyfer cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd, ac adeiladu ar brosesau datganiad cynharach a dyfarniadau grantiau, cymerodd Llywodraeth Cymru gam ychwanegol o roi cyfathrebiad 'amnest' yn null 'amnest' i dderbynwyr grantiau drwy e-bost cyn Monitro Ôl-gwblhau. Mae hyn yn gofyn i fusnesau ystyried a ydyn nhw'n dal i allu cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Byddai ysgogi adnoddau, pe baen nhw wedi bod ar gael ac yn gallu cael eu blaenoriaethu, i ddechrau'r cyfnod Monitro Ôl-gwblhau yn gynt hefyd wedi bod yn fuddiol o safbwynt gwrth-dwyll.

## Cynlluniau a weinyddwyd gan awdurdodau lleol

27 Ar gyfer cynlluniau lle'r oedd awdurdodau lleol yn gweithredu fel asiantau i Lywodraeth Cymru, roedd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol weinyddu'r grantiau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys manylion meini prawf cymhwystra. Roedd Llywodraeth Cymru'n dibynnu'n fawr ar systemau a rheolaethau presennol awdurdodau lleol i wneud y taliadau i fusnesau fel ei 'bartneriaid dibynadwy'. Roedd mecanweithiau ar waith i gefnogi deialog rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol wrth i gynlluniau gael eu datblygu a'u cyflawni, yn ogystal â threfniadau rhannu data. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio mai cyfrifoldeb swyddogion 'Adran 151'

awdurdodau lleol oedd dylunio’r system o fonitro a rheolaeth yn y pen draw yn unol â dyletswyddau statudol ehangach y swyddogion hynny mewn perthynas â gweinyddu materion ariannol awdurdodau lleol yn briodol.

28 Fel gyda’r cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, fe wnaeth y meini prawf hyn esblygu ar draws ac weithiau o fewn camau unigol o gymorth. Er enghraifft, yn gynnar yn y pandemig ym mis Ebrill 2020, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi’u diweddaru a oedd yn nodi meini prawf penodol mewn perthynas â llety hunanarlwyo a chymhwystra ar gyfer cymorth grant pan godwyd pryderon ynghylch ffordd ymwared bosibl mewn perthynas â pherchnogaeth ar ail gartrefi. Serch hynny, roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddyfarniadau grant yn pwysleisio bod penderfyniadau terfynol i roi cymorth grant yn dibynnu ar ddisgresiwn yr awdurdod lleol yn y pen draw gyda’r nod o roi cymorth i fusnesau diledryw yr effeithiwyd yn negyddol arnynt.

29 Rydym yn ymwybodol bod y cwestiwn ynglŷn â disgresiwn wedi codi rhai pryderon ynghylch cysondeb o ran y dull a gymhwyswyd gan wahanol awdurdodau lleol, gan ystyried eu hamgylchiadau penodol hwy a chan gynnwys cyfyngiadau ymarferol a oedd yn ymwneud â’r adnoddau yr oedd eu hangen i brosesu a gwirio ceisiadau mewn modd amserol. Yn y sesiwn lawn ar 26 Ionawr 2021, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, sef “Bydd disgresiwn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn mynd ati i wneud hynny mewn ffyrdd nad yw eraill yn ei wneud. Dyna natur disgresiwn”.

30 Er bod Llywodraeth Cymru wedi coladu peth gwybodaeth gan awdurdodau lleol, nid yw wedi ceisio gwerthuso’n ffurfiol maint neu arwyddocâd llawn unrhyw wahaniaethau yn y dulliau a fabwysiadwyd, boed o ran y modd y dyluniodd awdurdodau eu systemau rheolaeth ar adeg ymgeisio, eu penderfyniadau yn y pen draw ynghylch dyfarnu grantiau, neu eu trefniadau ar gyfer monitro ar ôl talu. Fe wnaeth gwybodaeth a adolygwyd gennym ni trwy ein gwaith i brofi sampl o geisiadau ar gyfer yr archwiliad o Gyfrifon Cyfunol 2020-21 ganfod arferion amrywiol. Mae gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi’i chasglu am bolisïau twyll, aelodaeth timau a oedd yn gyfrifol am gynllunio’r cynlluniau grantiau, gofyn am gyfriflenni banc fel rhan o ddiwydrwydd dyladwy, ac ‘adrodd am eithriadau’ megis yr un cyfrifon banc ar gyfer mwy nag un ymgeisydd, hefyd yn amlygu rhai gwahaniaethau mewn dulliau rhwng awdurdodau.

31 Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau ‘Datganiad Blynyddol o Wariant Grant dan Atodlen 6’ a lofnodwyd gan y swyddog Adran 151 i ddarparu sicrwydd a oedd yn cynnwys bod systemau a rheolaethau yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio dim ond at y dibenion y’i rhoddwyd ar eu cyfer. O ran y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2022, pan oeddem yn cwblhau ein harchwiliad o Gyfrifon Cyfunol 2020-21, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael ffurflenni ar gyfer 2020-21 gan 19 o’r 22 o awdurdodau lleol, er bod 10 o’r ffurflenni hyn yn ymwneud dim ond â’r cam cyntaf o grantiau yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig a lansiwyd ym mis Mawrth 2020. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi adnabod unrhyw feysydd a oedd yn achosi pryder neu lle bu diffyg cydymffurfio o’i hadolygiad o’r ffurflenni hynny. Serch hynny, mae gwaith ar ôl o

hyd i Lywodraeth Cymru ei wneud yn y maes hwn i gydymffurfio â'i fframwaith rheolaeth hi ei hun ac y byddem yn disgwyl iddo gael ei gwblhau eleni.

32 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio gwybodaeth gan awdurdodau lleol am yr achosion o dwyll neu wall. Ar ddiwedd ein harchwiliad, roedd wedi cael 'ffurflenni twyll' gan 18 o'r 22 o awdurdodau[6]. Yn seiliedig ar yr 17 cyntaf o'r ffurflenni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod rheolaethau awdurdodau lleol ar geisiadau wedi arwain at wrthod oddeutu 14% o geisiadau cyn talu, sy'n dangos bod rheolaethau ar geisiadau ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol yn ei thyb hi.

33 Un elfen o'r trefniadau rheolaeth yw tystiolaeth o baru data trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Fel rhan o raglen waith y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21, gorchmynnodd yr Archwilydd Cyffredinol fod awdurdodau lleol yng Nghymru'n darparu data ar grantiau COVID-19 at ddibenion paru data (21 o'r 22 wnaeth hynny). Roedd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu manylion y grantiau o £10,000 i fusnesau bach a manylion y grantiau o £25,000 a oedd ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch trwy'r pecyn cymorth grant cychwynnol a oedd yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig a lansiwyd ym mis Mawrth 2020 (gweler **Arddangosyn 1** ac **Atodiad 1**).

34 Cafodd y data grantiau ei baru i sicrhau nad oedd busnesau'n cael mwy o grantiau cymorth nag oedd ganddynt hawl iddynt, ac roedd derbynyddion grantiau'n cael eu paru yn erbyn rhestrau gwylio twyll i sicrhau nad oedd yr ymgeisydd yn dwyllwr tybiedig. Cafodd y pariadau data eu darparu ar gyfer awdurdodau lleol i gael eu hadolygu. Dim ond nifer cymharol fach o achosion o dwyll neu wall a ganfuwyd mewn perthynas â dyblygu dyfarniadau grant – cyfanswm o £20,000. Fodd bynnag, nid oedd yr ymarfer hwn wedi'i fwriadu i fynd i'r afael â ffyrdd posibl eraill y gallai'r arian yma fod wedi cael ei gamddefnyddio'n dwyllodrus, er enghraifft grantiau'n cael eu hawlio gan sefydliadau a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu cyn y pandemig, neu dwyll dynwared lle'r oedd twyllwyr wedi ffugio bod yn fusnes dilys gan arwain at ddargyfeirio arian cyhoeddus i mewn i gyfrifon nad oeddent yn rhai busnes.

35 Ers hynny mae Tîm Menter Twyll Genedlaethol y DU wedi datblygu cynhyrchion paru data i alluogi cyrff cyhoeddus i gynnal camau gwirio cyfrifon banc a gwiriadau statws masnachu mewn perthynas â sefydliadau sydd wedi ymgeisio am gyllid grant. Cynigiwyd y cynhyrchion hyn i awdurdodau lleol ledled Cymru ond am gost. Serch hynny, fe wnaeth un awdurdod lleol fanteisio ar yr opsiwn i ddefnyddio'r cynhyrchion ar y cyd â mesurau mewnol eraill. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, roedd wedi canfod twyll a gwall a oedd yn gyfanswm o £570,000 mewn perthynas â 41 o ddyfarniadau grant. Ers hynny mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol i drefnu bod y cynhyrchion

[6] Roedd yr holl awdurdodau wedi cwblhau naill ai ffurflen Atodlen 6 neu ffurflen dwyll ar yr adeg honno, ond dim ond 15 oedd wedi cwblhau'r ddwy ohonynt. Ni ddaeth un o'r ffurflenni twyll i law tan 21 Gorffennaf 2022 ac nid yw tystiolaeth ohoni'n cael ei hadlewyrchu yn y dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru y gwnaethom ei hystyried wrth gwblhau ein harchwiliad.

hyn ar gael i awdurdodau lleol yn rhad ac am ddim. Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yn ddiweddar i bwyso a mesur eu diddordeb ehangach mewn cynnal y gwiriadau hyn os gellir sicrhau mynediad pellach atynt.

## Amcangyfrif Llywodraeth Cymru o dwyll a gwall

36 Fe wnaethom gwblhau ein gwaith archwilio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21 yn sylweddol yn hydref 2021. Ar yr adeg honno:

- ar gyfer y cam cyntaf o grantiau a rhyddhad ardrethi sy'n gysylltiedig â Chyfraddau Ardrethi Annomestig, a weinyddwyd gan awdurdodau lleol, yr oedd eu cyfanswm yn £1.1 biliwn, ni chanfu ein profion ar samplau unrhyw faterion cymhwystra sylweddol gyda thaliadau a wnaed dan y cynlluniau hyn. Roedd gan y cynlluniau feini prawf cymhwystra cyfyngedig yn seiliedig ar y math o fusnes, gwerth ardrethadwy a meini prawf eraill a allai gael eu gwirio cyn dyfarnu'r grantiau.
- ar gyfer cynlluniau grantiau eraill yr oedd eu cyfanswm yn £893 miliwn roedd y meini prawf cymhwystra'n ehangach yn unswydd er mwyn gwarchod pwrs y wlad. Nid oeddem yn gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gadarnhau bod y grantiau hyn wedi cael eu talu i fusnesau cymwys ac nid oedd Llywodraeth Cymru wedi coladu digon o wybodaeth y gellid ei defnyddio i feintioli lefel bosibl y twyll a gwall ar draws y grantiau hyn.

37 Fodd bynnag, mae'r oedi gyda'r broses gyfrifon wedi darparu rhagor o amser i Lywodraeth Cymru ystyried tystiolaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac o'i gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau hi ei hun fel a ddisgrifiwyd ym **mharagraffau 17 i 23**. O'r dystiolaeth hon, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wedi asesu ystod o wall a thwyll rhwng 0.08% a 4.17%[7]. Fe gymhwysodd Llywodraeth Cymru'r ystod ganrannol hon i'r £893 miliwn o wariant ar gynlluniau â meini prawf cymhwystra manylach[8]. Ar y sail honno, fe amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod y risg o dwyll a gwall rhwng £0.7 miliwn a £37.2 miliwn.

[7] Ceir cyd-destunau gwahanol i'r dadansoddiad o dwyll a gwall ar gyfer cynlluniau grantiau a weinyddwyd mewn rhannau eraill o'r DU, gyda chyfyngiadau penodol yn cael eu canfod yn yr achosion hynny hefyd. Ar gyfer tri chynllun grant cychwynnol, fe amcangyfrifodd Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 lefel o dwyll a gwall o 8.9% (amcangyfrif canolog oedd hwn yn seiliedig ar ystod o 4.4% i 13.4%). Nododd yr Adran ei bod yn disgwyl i lefel y twyll a gwall fod yn is ar gyfer rhai cynlluniau eraill nad oeddent wedi cael eu hasesu ar y pryd. Yn ei Chyfrifon Cyfunol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2021, nododd Llywodraeth yr Alban dystiolaeth a berodd iddi fynegi ei hyder, '…a reasonable estimate of fraud can be no more than 1-2%...'.

[8] Mae'r sylfaen hon o £893 miliwn yn cynnwys y £318 miliwn o gymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru a £575 miliwn ar draws camau diweddarach y cymorth a weinyddwyd gan awdurdodau lleol (gweler **Arddangosyn 1** ac **Atodiad 1**).

38 Rydym wedi nodi isod rywfaint o'r manylion pellach sydd wedi goleuo amcangyfrif Llywodraeth Cymru, yn ôl y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2022:

- o ran nifer y ffurflenni â gwallau, canfu Llywodraeth Cymru 97 (cyfradd o 2.21%) o blith y 4,399 o ffurflenni Monitro Ar Ôl Cwblhau yr oedd wedi'u cael gan ficrofusnesau a BBChau a gafodd gyllid grant yng nghamau 1 a 2 o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Dywedodd wrthym ni hefyd ei bod wedi adennill £1.6 miliwn (0.88%) hyd yma o ganlyniad i waith Monitro Ar Ôl Cwblhau ar gamau 1 a 2[9].
- roedd Llywodraeth Cymru wedi canfod un achos o gyllid i'w adennill hyd yma o'r 24 o ymatebion i'w harolwg a gafodd gan BBChau a gefnogwyd trwy'r Grant Datblygu Busnes yng ngham 3 o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd gwall o 4.17%.
- canfu Llywodraeth Cymru 142 o achosion o dwyll neu wall o 16 o ffurflenni gwallau gan awdurdodau lleol. Fe allosododd y ffigwr hwn i amcangyfrif cyfanswm o 195 o achosion (0.08%) ar draws 246,127 o ddyfarniadau grant unigol gan awdurdodau lleol yn 2020-21.

39 Fel a nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ar Gyfrifon Cyfunol 2020-21, rydym yn ystyried bod ansicrwydd yn amcangyfrif Llywodraeth Cymru o ganlyniad i gyfyngiadau data. Ym mhob un o'r achosion uchod, mae'r cyfrifiadau hyn yn ymwneud â chyfradd ganrannol yr achosion o gyfanswm o ddyfarniadau grant yn hytrach na gwerth yr achosion yn berthynol i'r gwariant ar y cyfan, tra bo'r ystod o ganlyniadau wedi cael ei chymhwyso ar draws cyfanswm y cymysgedd o gynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma, felly efallai nad ydynt yn gynrychioliadol. Ar gyfer yr amcangyfrif yn y pen uchaf o 4.17% sy'n llifo o un o'r cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae nifer yr ymatebion i'r arolwg Monitro Ar Ôl Cwblhau sy'n goleuo'r amcangyfrif cyfredol yn ffracsiwn bach o gyfanswm nifer y dyfarniadau (gweler **Atodiad 1**).

40 Ar gyfer yr amcangyfrif yn y pen isaf sy'n llifo o'r canlyniadau a nodwyd gan awdurdodau lleol, rydym yn nodi bod rhai awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno ffurflenni heb nodi unrhyw achosion o dwyll na gwall. Byddai dim achosion o dwyll a gwall o gwbl yn ymddangos yn annhebygol yn ymarferol, er nad yw achosion o'r fath wedi cael eu canfod hyd yma o bosibl. Ym **mharagraffau 33 i 35** rydym wedi nodi'r cyfyngiadau yn yr ymarfer paru data cychwynnol a gynhaliwyd trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol ac rydym hefyd wedi nodi mewn un achos lle mae gwiriadau ychwanegol wedi cael eu cynnal bod hyn wedi canfod achosion ychwanegol o dwyll neu wall.

41 Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, ac yng nghyd-destun lefel perthnasedd o £175 miliwn ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, fe nododd yr

[9] Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym ni bod y ffigwr yma ar adferiad yn ymwneud dim ond at adferiad a ddeilliodd yn uniongyrchol o Fonitro Ar Ôl Cwblhau. Rydym yn deall bod peth cyllid wedi cael ei ddychwelyd yn wirfoddol am amryw resymau ond nad yw wedi'i gynnwys yn y ffigwr hwn.

Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ei fod wedi'i argyhoeddi bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad yw cyfradd y twyll neu wall yn gyfystyr â gwariant perthnasol.

## Sut y mae Llywodraeth Cymru'n gwerthuso effaith ei chymorth ariannol?

42 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i helpu i werthuso ei hymyriadau economaidd mewn ymateb i COVID-19 trwy'r Gronfa Cadernid Economaidd a phecynnau cymorth cysylltiedig, gan gynnwys y cyllid ar ffurf benthyciadau a ddarparwyd trwy Fanc Datblygu Cymru. Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddeall effeithiau'r cymorth hwn a pha mor bell y mae wedi cynorthwyo busnesau i oroesi a gwella'u rhagolygon ar gyfer adferiad. Gall yr ymchwil, gan Dirnad Economi Cymru[10], oleuo dyluniad a'r broses o gyflawni unrhyw gymorth yn y dyfodol hefyd. Deallwn fod y rhaglen ymchwil gyffredinol, sy'n costio cyfanswm o tua £240,000, ac eithrio TAW, yn ceisio:

- archwilio'r effaith a achoswyd gan ymyriadau a roddwyd ar waith;
- archwilio sut y gwnaeth y cronfeydd hyn a ddefnyddiwyd yng Nghymru weithio ar y cyd â mentrau ar lefel y DU gyfan i ddiogelu gweithgarwch economaidd yng Nghymru;
- darparu crynodeb ar lefel grynswth o ddeilliannau o'r ymyriadau penodol; a
- darparu asesiad o werth am arian mewn perthynas â'r gost am bob swydd a ddiogelwyd gan yr ymyriadau.

43 Mae Dirnad Economi Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad hyd yma[11, 12]. Rydym yn deall bod tri adroddiad pellach yn yr arfaeth – yn hydref 2022, gwanwyn 2023 a gaeaf 2023. Mae'n well ystyried cwmpas, canfyddiadau a chasgliadau'r ddau adroddiad hyd yma yn eu cyd-destun llawn ac nid ydym wedi ceisio'u crynhoi yn y memorandwm hwn. Mae'r adroddiadau'n cyfeirio at rai canfyddiadau cadarnhaol am bwysigrwydd ac effaith ymyriadau a arweiniwyd yng Nghymru ochr yn ochr â chymorth gan Lywodraeth y DU. Maent hefyd yn pwysleisio rhai cafeatau ac yn amlygu meysydd ar gyfer ymchwil a dadansoddi pellach yng nghyd-destun yr hyn sy'n rhaglen ymchwil hydredol.

[10] Menter gydweithredol rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw Dirnad Economi Cymru.

[11] Dirnad Economi Cymru, Ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru: Dadansoddiad o Fuddiolwyr, Rhagfyr 2020

[12] Dirnad Economi Cymru, Ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru: Dadansoddiad o ddata arolygon gweinyddol a buddiolwyr, Ebrill 2022

# Atodiad 1

## Dadansoddiad o gymorth grantiau a rhyddhad ardrethi

Cymerwyd gwybodaeth ariannol o gyfriflyfr ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Ceir rhai anghysonderau rhwng yr wybodaeth hon a gwybodaeth gyhoeddus arall y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau mewn amseriad rhwng ffynonellau data, yn enwedig lle mae data'n croesi blynyddoedd ariannol.

| Ymyriad economaidd | Cam y Gronfa Cadernid Economaidd | Gwariant y rhoddwyd cyfrif amdano yn 2020-21 (£ miliynau) | Gweinyddwyd gan | Dyddiadau yr oedd y cynllun yn weithredol | Nifer y dyfarniadau |
|---|---|---:|---|---|---:|
| Grant Ardrethi Annomestig | Amh. | 730[1] | Awdurdodau lleol | Mawrth – Mehefin 2020 | 66,252 |
| Rhyddhad Ardrethi ar gyfer busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch | Amh. | 356 | Awdurdodau lleol | Amh | Ddim ar gael adeg drafftio |
| Grant Cadernid i Ficrofusnesau | Camau 1 a 2 | 90 | Llywodraeth Cymru | Ebrill - Gorffennaf 2020 | 9,094 |
| Grant Cadernid i BBChau | Camau 1 a 2 | 92 | Llywodraeth Cymru | Ebrill - Gorffennaf 2020 | 2,527 |
| Grant Cadernid i Fusnesau Nad Ydynt yn BBChau | Camau 1 a 2 | 17 | Llywodraeth Cymru | Ebrill - Gorffennaf 2020 | 52 |

| Ymyriad economaidd | Cam y Gronfa Cadernid Economaidd | Gwariant y rhoddwyd cyfrif amdano yn 2020-21 (£ miliynau) | Gweinyddwyd gan | Dyddiadau yr oedd y cynllun yn weithredol | Nifer y dyfarniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Bwrsariaeth a Dewisol (Busnesau Newydd) | Camau 1 a 2 | 4 | Awdurdodau lleol | Mehefin - Medi 2020 | 1,641 |
| Grant Datblygu Busnes Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd i Ficrofusnesau | Cam 3 | 9 | Llywodraeth Cymru | Hydref - Tachwedd 2020 | 1,025 |
| Grant Datblygu Busnes Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd i BBChau | Cam 3 | 19 | Llywodraeth Cymru | Hydref - Tachwedd 2020 | 805 |
| Grant Twristiaeth a Lletygarwch Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd | Cam 3 | 19 | Llywodraeth Cymru | Hydref - Tachwedd 2020 | |
| Cronfa Fusnes y Cyfyngiadau Symud Lleol | Cam 3 | 139 | Awdurdodau lleol | Hydref - Tachwedd 2020 | 54,852 |
| Cyllid Sector-Benodol y Gronfa Cadernid Economaidd i Ficrofusnesau dan Gyfyngiadau | Cam 4 | 24 | Llywodraeth Cymru | Ionawr - Chwefror 2021 | 4,424 |
| Cyllid Sector-Benodol y Gronfa Cadernid Economaidd i BBChau dan Gyfyngiadau | Cam 4 | 22 | Llywodraeth Cymru | Ionawr - Chwefror 2021 | 1,140 |
| Cyllid Sector-Benodol ERF i Fusnesau Nad Ydynt yn BBChau dan Gyfyngiadau | Cam 4 | 1 | Llywodraeth Cymru | Ionawr - Chwefror 2021 | 9 |

| Ymyriad economaidd | Cam y Gronfa Cadernid Economaidd | Gwariant y rhoddwyd cyfrif amdano yn 2020-21 (£ miliynau) | Gweinyddwyd gan | Dyddiadau yr oedd y cynllun yn weithredol | Nifer y dyfarniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ardrethi Annomestig i Fusnesau dan Gyfyngiadau | Cam 4 | 282 | Awdurdodau lleol | Rhagfyr 2020 - Mawrth 2021 | 123,382 |
| Cronfa Ardrethi Annomestig i Fusnesau dan Gyfyngiadau ym mis Mawrth | Cam 4 | 150 | Awdurdodau lleol | Mawrth 2021 | |
| Cyllid Sector-Benodol Cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd i BBChau | Cam 4 | 23 | Llywodraeth Cymru | Mawrth 2021 | 1,142 |
| Cyllid Sector-Benodol Cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd i Fusnesau Nad Ydynt yn BBChau | Cam 4 | 2 | Llywodraeth Cymru | Mawrth 2021 | 8 |
| **Cyfanswm** | | **1,979** | | | **266,353**[2] |

Nodiadau:

[1] Fel a nodwyd ym **mharagraff 1** yn y memorandwm hwn, dylid bod wedi rhoi cyfrif am y swm yma o £730 miliwn yn 2019-20. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno ac fe gynhwysodd y gwariant hwn yn ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2020-21. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfrif am £42 miliwn o gymorth grant yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig yn 2019-20 hefyd nad yw yn y £730 miliwn.

[2] Nid oes ffigwr ar gyfer nifer y busnesau unigryw a gefnogwyd ar draws yr holl gynlluniau yn 2020-21 ar gael yn rhwydd.

Ffynhonnell: Cyfriflyfr ariannol Llywodraeth Cymru, adolygiad Archwilio Cymru o wybodaeth gyd-destunol arall a gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru (nas archwiliwyd) am nifer y dyfarniadau.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.